# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Bodhyfryd

Dyddiad yr arolygiad: 11/05/2026

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

# Crynodeb

Mae Ysgol Bodhyfryd yn gymuned gynhwysol a chyfeillgar sy'n rhoi pwyslais cadarn ar gynnydd, lles a datblygiad personol disgyblion. Mae gan y pennaeth, sy'n newydd iawn i'w rôl, weledigaeth glir, sy'n sicrhau bod disgyblion yn derbyn ystod eang o brofiadau mewn amgylcheddau dysgu diddorol a gofalgar. Mae hyn yn cyfrannu'n bwrpasol at ymddygiad cadarnhaol a pharodrwydd i ddysgu ymhlith disgyblion.

Mae'r weledigaeth synhwyrol hon, sy'n cynnwys cyfraniadau ystyrlon gan staff a'r gymuned ehangach, yn cefnogi prosesau gwella'r ysgol yn effeithiol. Fodd bynnag, nid yw'r strwythur arweinyddiaeth diweddar wedi cael digon o amser i wreiddio'n llawn, nad yw eto'n dylanwadu'n llawn ar gyfeiriad strategol yr ysgol.

Mae athrawon a chymorthyddion yn cydweithio'n effeithiol i sicrhau darpariaeth gwricwlaidd ddifyr. Maent yn dîm o staff effeithiol sy'n canolbwyntio ar hyrwyddo dysgu a lles disgyblion yn fwriadus. Maent yn cydweithio'n frwd â rhieni ac asiantaethau allanol ac maent yn adnabod anghenion y disgyblion a'u cymuned yn dda. Mae Unedau Darpariaeth Barhaus yr awdurdod lleol, sydd ar safle'r ysgol, yn darparu gofal effeithiol i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). O ganlyniad, mae bron bob disgybl yn yr unedau yn gwneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn.

Mae cyflymder bwriadus i'r sesiynau dysgu ac maent yn diwallu anghenion disgyblion yn dda. Ar y cyfan, mae staff yn cefnogi disgyblion i wneud dewisiadau annibynnol am eu dysgu. Serch hynny, nid yw adborth athrawon yn targedu'r camau nesaf yn nysgu disgyblion yn ddigon miniog a chyson. Ar y cyfan, mae athrawon yn darparu cyfleoedd diddorol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau'n gyson o fewn gweithgareddau dysgu unigol a thros amser. Mae hyn yn arwain at gynnydd effeithiol ym medrau llythrennedd, rhifedd a digidol disgyblion. Er hyn, nid yw'r disgyblion yn cael digon o gyfleoedd ymestynnol i gymhwyso'u medrau ar lefelau heriol ar draws y cwricwlwm.

Mae staff a disgyblion yn meithrin perthnasoedd gwaith clòs a theyrngar. Mae staff yn annog disgyblion i gydweithio a rhannu syniadau a theimladau'n ddeallus, sy'n datblygu eu parch at eraill yn llwyddiannus. Mae staff yn sicrhau bod disgyblion yn datblygu medrau personol, cymdeithasol a chreadigol effeithiol, yn ogystal â hybu ymwybyddiaeth dda o'u cynefin a gwerthfawrogiad diwylliannol cryf.

# Argymhellion a beth sy'n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud tri argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella:**

A1 Sicrhau bod arweinyddiaeth yn sefydlu cyfeiriad strategol clir ar gyfer yr ysgol yn llawn

A2 Sicrhau bod adborth athrawon yn cefnogi disgyblion i wella eu gwaith yn gyson

A3 Ymestyn y cyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso'u medrau ar lefelau heriol ar draws y cwricwlwm

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad

## Adroddiad llawn

Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o'r ysgol, dilynwch y ddolen hon i'r adroddiad llawn.

© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 14/07/2026